

Ymateb y Llywodraeth i'r Ymgynghoriad Llwybrau at Waith

Hydref 2025

Cyflwyniad

Dyma ymateb y Llywodraeth i'r Ymgynghoriad Papur Gwyrdd *Llwybrau at Waith: Diwygio Budd-daliadau a Chefnogaeth i Gael Prydain i Weithio*.

Mae'r ddogfen ymateb yn manylu ar:

- cefndir y Papur Gwyrdd a'r ymarfer ymgynghori;
- adrodd ystadegol ar yr ymatebion a chrynodebau o'u themâu allweddol; a
- arwydd o'r camau nesaf y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn eu cymryd i ystyried yr ymatebion wrth ddatblygu polisi yn y meysydd hyn.

Os hoffech roi unrhyw sylwadau am yr ymateb hwn, cysylltwch â'r Adran Gwaith a Phensiynau yn y cyfeiriad canlynol:

Pathways to Work Consultation,
Disability and Health Strategy Directorate,
Department for Work and Pensions,
Floor Two,
Caxton House,
London,
SW1H 9NA

Crynodeb Gweithredol

Mae'r Papur Gwyrdd *Llwybrau at Waith: Diwygio Budd-daliadau a Chefnogaeth i Gael Prydain i Weithio* yn nodi cynigion i ddiwygio sut mae'r Llywodraeth yn cefnogi pobl anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd.

Gwnaethom geisio adborth drwy ymgynghoriad cyhoeddus. Gwnaethom wahodd barn gan y cyhoedd, ac yn arbennig gwnaethom annog ymatebion gan bobl anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd, eu gofalwyr a'u sefydliadau cynrychioliadol.

Gallai ymatebwyr roi adborth ar ffurf ymateb ysgrifenedig (naill ai drwy ffurflen ar-lein, e-bost neu drwy'r post), neu'n bersonol yn un o'r digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd ledled y DU ac yn rhithwir.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad o 18 Mawrth i 30 Mehefin 2025 ac fe gawsom 47,983 o ymatebion. Roedd 14,763 o'r rhain yn ymatebion uniongyrchol i'n cwestiynau ymgynghori, tra'r oedd 33,220 ohonynt wedi'u hanfon mewn ymateb i'r ymgynghoriad, ond a atebodd gwestiynau na ofynnwyd gan yr ymgynghoriad.

Cafodd ymatebwyr gyfle i ateb 17 cwestiwn yn ymwneud â chynigion o dair pennod o'r Papur Gwyrdd. Y rhain oedd "Pennod 2: Diwygio strwythur y system budd-daliadau iechyd ac anabledd", "Pennod 3: Cefnogi pobl i ffynnu", a "Pennod 4: Cefnogi cyflogwyr a gwneud gwaith yn hygyrch".

Pennod 2: Diwygio strwythur y system budd-daliadau iechyd ac anabledd

Gwnaeth llawer o'r ymatebion alw am fwy o fuddsoddiad yn y GIG, yn enwedig cymorth iechyd meddwl, a diwygio'r broses asesu Taliad Annibyniaeth Personol (PIP). Roedd cefnogaeth eang i'r egwyddor y tu ôl i gynnig y Llywodraeth i roi'r hawl i bobl anabl Roi Cynnig ar Waith, gyda'r ymatebwyr yn nodi pwysigrwydd rhwydi diogelwch, hyblygrwydd o fewn y system fudd-daliadau, eglurder ar reolau budd-daliadau, a gwerth gwasanaethau cymorth cyflogaeth da. Roedd y safbwyntiau'n amrywio ar hyd yr hawl i Yswiriant Diweithdra (UI). Gwnaeth llawer awgrymu y dylai cymorth i unigolion anabl fod yn amhenodol, awgrymodd eraill y dylid talu UI am gyfnod cyfyngedig. Roedd cynigion ar gyfer terfynau amser yn amrywio o hyd at 6 mis i fwy na 12 mis. Mynegodd eraill amheuaeth ynghylch a oedd angen budd-dal newydd. Er nad oedd yn destun ymgynghoriad, defnyddiodd llawer o ymatebwyr eu hymatebion i'r adran hon i alw ar y Llywodraeth i gadw'r meini prawf cymhwysedd presennol ar gyfer PIP.

Pennod 3: Cefnogi pobl i ffynnu

Pwysleisiodd yr ymatebion yn eang, er mwyn i gymorth fod yn effeithiol, y dylai fod yn gyfannol, wedi'i gyflenwi gan staff sydd â'r sgiliau priodol. Gwnaeth ymatebwyr awgrymu'n gyffredin hefyd na ddylai pobl orfod ymgysylltu â'r cymorth er mwyn cael eu budd-daliadau. Gwnaeth ymatebwyr awgrymu y dylid cynnig sgysiau hefyd mewn amrywiaeth o fformatau sy'n hyblyg i anghenion unigol, drwy ddefnyddio iaith hygyrch a chanolbwyntio ar wrando ag empathi, gweithredol. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid pennu gofynion, fel sgysiau a gweithgareddau paratoi at waith, fesul achos ac

wedi'u teilwra. Roedd llawer yn credu y dylai asesiadau i bennu gofynion gael eu cynnal gan arbenigwr meddygol neu wedi'u seilio ar dystiolaeth feddygol. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi cynnal yr oedran y gallai pobl gael mynediad at yr Elfen Iechyd Credyd Cynhwysol yn 18 oed, er bod y farn wedi'i rannu ynghylch a ddylai'r oedran y dylai pobl ddechrau cael mynediad at PIP godi i 18 oed.

Pennod 4: Cefnogi cyflogwyr a gwneud gwaith yn hygyrch

Gwnaeth mwyafrif helaeth yr ymatebion fynegi cefnogaeth gref am amcanion y rhaglen Mynediad at Waith. Daeth yr ymatebwyr at ei gilydd o amgylch awgrymiadau ar gyfer cynllun symlach, wedi'i deilwra a'i symleiddio a all ddarparu cyllid yn gyflym. Roedd awgrymiadau ar gyfer y cymorth y dylai Mynediad at Waith ei ddarparu yn cynnwys ariannu grantiau personol, hyfforddiant i gyflogwyr, a chymorth ar gyfer cludiant, gyda chyllid a hyfforddiant penodol ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig. Roedd awgrymiadau ar gyfer sut i sicrhau cydweithio effeithiol â'r Gwasanaeth Cyngori, Cymodi a Chyflafareddu, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cynnwys datblygu rhaniad clir o gyfrifoldebau a chanolbwyntio ar wella ymwybyddiaeth ac atebolrwydd cyflogwyr o'u cyfrifoldebau a'r gefnogaeth sydd ar gael.

Mae crynodeb llawn o'r ymatebion i bob cwestiwn wedi'i amlinellu yn y papur ymateb llawn. Mae'r Llywodraeth yn ystyried yn ofalus yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ochr yn ochr â mewnwediadau gan ein Pwyllgorau Cydweithio – pum pwyllgor (Mynediad at Waith, Llwybrau at Waith, Hawl i Roi Cynnig ar Waith, Oedran PIP, a Chymorth Cyflogaeth i Bobl Ifanc) sy'n dod â grwpiau o bobl anabl, pobl sydd â chyflyrau iechyd, ac arbenigwyr eraill ynghyd i gydweithio a darparu trafodaeth – yn ogystal â thystiolaeth arall wrth i ni ddatblygu ein polisi ymhellach.

